Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Bwyd ac Alcohol â Chymhorthdal

22 Rhagfyr 2022

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

> *Dear Senedd*
>
> *As a person living in Wales and a rate payer, I request an answer to my question, do the MS people in the Senedd have subsidised food and alcohol within the Senedd dining area.*
>
> *Do MS members have any other subsidised allowances.*

Mae ein hymateb i'ch cwestiynau isod.

1. *Do the MS people in the Senedd have subsidised food and alcohol within the Senedd dining area.*

Mae Comisiwn y Senedd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau arlwyo i Aelodau'r Senedd, eu staff a staff Comisiwn y Senedd yn y ffreutur, ystafelloedd te'r Aelodau a'r caffi cyhoeddus. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu gan gontractwr allanol a chyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gyfer 2021-22 oedd £399,000. Nid yw'r gwasanaethau penodol a ddarperir yn seiliedig ar gymorthdaliadau pris ar gyfer eitemau unigol sydd ar werth ond yn hytrach ar gost darparu'r ystod gyfan o wasanaethau ar draws y gwahanol allfeydd.

Cyhoeddir manylion ein cyllideb flynyddol, gan gynnwys y costau penodol ar gyfer arlwyo, yn ein Cyllideb Flynyddol.


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Cyllideb y Comisiwn 2021-22.pdf (senedd.cymru)**

2. *Do MS members have any other subsidised allowances.*

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd y tâl a'r adnoddau priodol iddynt gyflawni eu rôl. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau Aelodau, yn ogystal â lwfansau eraill fel costau staffio a swyddfa. Mae'r rheolau ynghylch y lwfansau sydd ar gael i'w gweld yn y **Penderfyniad**.

Cyhoeddir yr holl hawliadau ar ein system lwfansau dri mis yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi.

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

i. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech chwilio amdanynt.
ii. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' i weld rhestr o Aelodau blaenorol a phresennol, a dewiswch yr Aelod(au) penodol. Os ydych chi am chwilio'r system am yr holl Aelodau, gadewch hwn yn wag.
iii. I ddewis y math o draul penodol, ewch i 'DEWIS MATH O LWFANS', ac yna dewiswch y lwfans yr hoffech ei weld.
iv. Dewiswch 'Chwilio'

Os ydych yn cael unrhyw drafferth yn cael mynediad at y wybodaeth hon, rhowch wybod i mi.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN